Sut y gallaf gael y wybodaeth ddiweddaraf am Iechyd a Diogelwch?

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf o ran deddfwriaeth iechyd a diogelwch mewn sawl ffordd.

Gwefan yr HSE
Mae'r wybodaeth fwyaf diweddar ar gael ar wefan HSE ar ffurf newyddion ynglŷn ag ymgyrchoedd yr HSE, taflenni gwybodaeth am ddim a'r prif faterion sydd ar hyn o bryd yn effeithio ar Iechyd a Diogelwch.

Bwletin Newyddion yr HSE
Casgliad wythnosol yw hwn o bob datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Wasg yr HSE ar amrywiaeth o bynciau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae tanysgrifiad am 12 mis ar hyn o bryd yn costio £50.

- **Datganiadau i'r Wasg gan yr HSE**

Gwasanaethau tanysgrifio
Ar hyn o bryd, mae nifer o wasanaethau tanysgrifio ar gael gan HSE Books. Yn arbennig ceir tri sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am bob agwedd ar Iechyd a Diogelwch yn y gweithle:

Newyddion am Lyfrau Newydd
Mae hwn ar hyn o bryd yn wasanaeth tanysgrifio am ddim. Mae cylchlythyr rheolaidd yn darparu manylion am gyhoeddiadau newydd yr HSC/E yn ogystal â gwybodaeth ynglŷn â chyhoeddiadau seneddol perthnasol megis Offerynnau Statudol a Rheoliadau. Bydd y gwasanaeth hwn yn eich hysbysu am gyhoeddiadau newydd yr HSE cyn i'r catalog nesaf fod ar gael.

Cylchlythyr y Comisiwn Iechyd a Diogelwch
Cyhoeddiad lliwgar bob deufis yw'r cylchlythyr sy'n casglu ynghyd yr holl wybodaeth i bawb yr effeithir arnynt gan faterion iechyd a diogelwch. Ymhlith y pynciau a gwmpesir mae: newyddion am faterion iechyd a diogelwch cenedlaethol a rhyngwladol, newyddion ewropeaidd - y byd iechyd a diogelwch Ewropeaidd a sut y bydd hyn yn effeithio ar fusnes, deddfwriaeth a chodau ymarfer newydd y DU, canllawiau ar amrywiaeth eang o brosesau a pheryglon diwydiannol, cyhoeddiadau gan y Comisiwn/Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac adroddiadau am ddamweiniau a sut y gellid eu hosgoi. Mae un tanysgrifiad am chwe rhifyn yn costio £15. Mae gostyngiadau ar gael ar gyfer tanysgrifiadau ychwanegol.

- **HSE Direct**

Gwasanaeth tanysgrifio yw hwn, gellir cael gafael arno dros y rhyngrwyd a bydd ar gael yn fuan ar CD-ROM, gan roi cyfle i gael gwybodaeth iechyd a diogelwch ar unwaith. Bydd dyddiad ar gyfer lansio'r CD-ROM yn cael ei gyhoeddi maes o law. Ceir ardal am ddim sy'n cynnwys gwasanaeth penawdau'r newyddion, dyddiadur digwyddiadau a datganiadau i'r wasg gan yr HSE a dogfennau ymgynghori. Mae gan

y safle gyfleuster cymorth a chyfres o gwestiynau cyffredin.

Mae'r ardal danysgrifio yn cynnwys deddfwriaeth (Deddfau, Rheoliadau a Chyfarwyddebau'r UE), cyhoeddiadau'r HSE sydd ar werth (cyfresi HSG a L) a ffurflenni. Mae tocyn diwrnod yn costio £20 + TAW ac mae tanysgrifiad blynyddol yn £241 + TAW. Mae gostyngiad ar gael ar gyfer tanysgrifiadau aml-ddefnyddwyr.